# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 7

### TALU A GORFODI

*Talu*

#### 164 Ystyr "swm perthnasol"

Yn y Rhan hon, ystyr "swm perthnasol" yw—

(a) treth ddatganoledig;

(b) llog ar dreth ddatganoledig;

(c) cosb sy'n ymwneud â threth ddatganoledig;

(d) llog ar gosb sy'n ymwneud â threth ddatganoledig.

#### 165 Symiau perthnasol yn daladwy i ACC

Mae unrhyw swm perthnasol sy'n dod yn daladwy (boed o dan ddeddfiad neu o dan setliad contract) yn daladwy i ACC.

#### 166 Derbynebau am daliad

Pan delir swm perthnasol i ACC, rhaid i ACC roi derbynneb os gofynnir iddo wneud hynny.

#### 167 Ffioedd talu

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu drwy reoliadau bod rhaid i berson sy'n talu swm perthnasol i ACC gan ddefnyddio dull talu a ragnodir gan y rheoliadau, hefyd dalu ffi a ragnodir gan y rheoliadau neu a bennir yn unol â hwy.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth ynghylch pryd a sut y mae'n rhaid talu'r ffi.

*Ardystio dyled*

### 168 Tystysgrifau dyled

(1) Mae tystysgrif gan ACC nad yw swm perthnasol wedi ei dalu i ACC yn dystiolaeth ddigonol nad yw'r swm wedi ei dalu oni phrofir i'r gwrthwyneb.

(2) Mae dogfen yr honnir ei bod yn dystysgrif o'r fath i'w thrin fel pe bai'n dystysgrif o'r fath oni phrofir i'r gwrthwyneb.

*Adennill*

### 169 Achos yn llys yr ynadon

(1) Pan fo swm perthnasol yn daladwy gan berson ac nad yw'n fwy na £2,000, mae i'w adennill fel dyled sifil drwy broses ynadol.

(2) Caniateir cynnwys pob un neu unrhyw un neu ragor o'r symiau sydd i'w hadennill o dan yr adran hon sy'n daladwy gan unrhyw un person o fewn yr un gŵyn, wŷs, neu ddogfen arall y mae'n ofynnol ei gosod gerbron ynad heddwch neu ei dyroddi ganddo.

(3) Mae pob dogfen o'r fath i'w thrin, mewn cysylltiad â phob swm, fel dogfen ar wahân ac nid yw ei hannilysrwydd mewn cysylltiad ag un swm yn effeithio ar ei dilysrwydd mewn cysylltiad ag unrhyw swm arall.

(4) O ran swm perthnasol sy'n dreth ddatganoledig neu'n gosb, caniateir dwyn achos o dan yr adran hon o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod yn dilyn y diwrnod yr oedd yn ofynnol talu'r dreth ddatganoledig neu'r gosb arno neu'n gynharach.

(5) O ran swm perthnasol sy'n llog ar dreth ddatganoledig neu ar gosb, caniateir dwyn achos o dan yr adran hon o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod yn dilyn y diwrnod yr oedd yn ofynnol talu'r dreth ddatganoledig neu'r gosb arno neu'n gynharach.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru gynyddu'r swm a bennir yn is-adran (1) drwy reoliadau.

### 170 Gorfodi drwy atafaelu nwyddau

(1) Os nad yw person yn talu swm perthnasol i ACC sy'n daladwy gan y person, caiff ACC ddilyn y weithdrefn yn Atodlen 12 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (p. 15) (atafaelu nwyddau) er mwyn adennill y swm hwnnw.

(2) Yn adran 63(3) o'r Ddeddf honno (asiantau gorfodi), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(ba) a person authorised to use the procedure in Schedule 12 by the Welsh Revenue Authority (or by a person to whom the Welsh Revenue Authority has delegated the function of authorising the use of the procedure);".